



**Bryniau Clwyd a  
Dyffryn Dyfrdwy**  
Clwydian Range  
and Dee Valley

Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol  
Area of Outstanding Natural Beauty

**CYDBWYLLGOR**  
**ARDAL O HARDDWCH NATURIOL EITHRIADOL**  
**BRYNIAU CLWYD A DYFFRYN DYFRDWY**

**Dyddiad y cyfarfod: 25 Mehefin 2021**

**Aelod/Swyddog Arweiniol: David Shiel / Tony Hughes**

**Awdur yr Adroddiad: David Shiel**

**Teitl: 'Cynllunio ar gyfer Awyr Dywyll' - Canllaw Cynllunio Atodol ar gyfer golau yn AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy - Drafft ymgynghori**

---

**1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â Chanllaw Cynllunio Atodol (CCA) drafft ar gyfer golau yn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy, a gaiff ei ddefnyddio wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio, os caiff ei fabwysiadu.

**2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

Mae Cynllun Rheoli AHNE a fabwysiadwyd yn diffinio'r Nodweddion Arbennig sy'n golygu bod yr ardal yn dirwedd a ddiogelir yn genedlaethol. Un o'r nodweddion arbennig yw tawelwch – awyrgylch tawel a llonydd; heddwch a distawrwydd; a gydag awyr dywyll. Bydd y CCA yn helpu i gadw'r nodwedd arbennig hwn trwy roi rhagor o ganllawiau i ddatblygwyr ac awdurdodau cynllunio lleol ar olau. Hefyd, mae Cydbwyllgor a Phartneriaeth yr AHNE yn ceisio cydnabyddiaeth ffurfiol o'r ardal fel Cymuned Awyr Dywyll gan y Gymdeithas Awyr Dywyll Ryngwladol, ac mae'r CCA yn ragofyniad hanfodol ar gyfer dynodiad o'r fath.

Mae CCA drafft ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus ynghlwm wrth yr adroddiad hwn.

### **3. Beth yw'r Argymhellion?**

Bod y Cydbwyllgor yn cefnogi'r CCA drafft 'Cynllunio ar gyfer Awyr Dywyll' - Canllaw Cynllunio Atodol ar gyfer golau yn AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy' ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus.

### **4. Manylion yr Adroddiad.**

Mae'r ddogfen yn darparu canllawiau ychwanegol ar olau'r datblygiad i sicrhau ei fod wedi'i ddylunio a'i nodi i gadw awyr dywyll a bywyd gwyllt gyda'r nos yn yr AHNE.

Isafswm o 8 wythnos fyddai'r cyfnod ymgynghori cyhoeddus a rhagwelir y bydd yn dechrau ym mis Mehefin 2021. Yn sgil Rheoliadau Covid cyfredol, cynigir ymgynghoriad ar-lein yn unig, ond os bydd cyfyngiadau'n cael eu llacio, gellir cynnal sesiwn galw heibio ym Mharc Gwledig Loggerheads. Rhagwelir y caiff canlyniadau'r ymgynghoriad eu hadrodd yn ôl i Bwyllgor Cynllunio'r 3 Awdurdod yn ddiweddarach yr haf hwn gyda bwriad o fabwysiadu'r ddogfen yn ffurfiol. Os caiff ei fabwysiadu, bydd y CCA yn ystyriaeth gynllunio berthnasol wrth asesu ceisiadau cynllunio.

### **5. Sut mae'n cyfrannu at Flaenoriaethau Cynlluniau Rheoli AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy?**

Un o'r nodweddion arbennig yw tawelwch – awyrgylch tawel a llonydd; heddwch a distawrwydd; a gydag awyr dywyll. Os caiff ei fabwysiadu, bydd y CCA ar Awyr Dywyll yn darparu diogeliad arwyddocaol i safon yr awyr ar draws yr AHNE mewn cysylltiad â datblygiadau newydd.

Bydd hefyd yn cynorthwyo i gadw nodweddion arbennig yr AHNE ac yn gwella ei hapêl i ymwelwyr. Bydd effaith gadarnhaol ar yr economi leol hefyd trwy wella cyfleoedd ar gyfer twristiaeth astro yn ystod misoedd tawelach yr hydref/gaeaf.

### **6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Ni ragwelir y bydd cytuno ar y CCA ar gyfer ymgynghori yn creu unrhyw gost ychwanegol. Caiff gwasanaethau eraill eu heffeithio pan fyddant yn cynnig cynlluniau goleuadau allanol neu ddatblygiad cysylltiedig y dylid eu cynllunio a'u nodi i fod yn gyfeillgar i awyr dywyll. Sylwch na fydd dyluniad golau sy'n gyfeillgar i awyr dywyll yn creu costau ychwanegol o reidrwydd.

### **7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylai'r templed AEC wedi'i lenwi gael ei atodi fel atodiad i'r adroddiad.**

Y prif gasgliadau yw y bydd y CCA drafft yn cael effaith gadarnhaol ar yr economi leol, iechyd a lles a bioamrywiaeth. Bydd hefyd yn cyfrannu at ostyngiad o ran allyriadau carbon.

## **8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?**

Bydd y CCA yn berthnasol yn ardaloedd perthnasol y tri awdurdod - Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam. Sefydlwyd Gweithgor Swyddogion sy'n cynnwys swyddogion cynllunio o'r tri awdurdod ynghyd â chynrychiolwyr o'r AHNE a Chyfoeth Naturiol Cymru, er mwyn symud ymlaen â pharatoi'r CCA drafft a'i gydlynu. Mae Grŵp Strategaeth Cynllunio Sir y Fflint wedi cymeradwyo'r CCA ar gyfer ymgynghori ac mae Wrecsam hefyd wedi cytuno'r ddogfen ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus. Mae Grŵp Cynllunio Strategol Sir Ddinbych wedi cymeradwyo'r CCA ar gyfer ymgynghoriad yn ddiweddar hefyd.

## **9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

## **10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Bydd methu â rhoi CCA ar waith i ddarparu cyngor a chyfarwyddyd o ran golau sy'n gyfeillgar i awyr dywyll i ddatblygwyr yn yr AHNE ac o'i hamgylch yn tanseilio ymdrechion i gadw a gwella tawelwch fel un o'n Nodweddion Arbennig yr AHNE. Hefyd, byddai methiant o'r fath yn rhwystr sylweddol i ddyhead yr AHNE i sicrhau cydnabyddiaeth ffurfiol o'r ardal fel Cymuned Awyr Dywyll gan y Gymdeithas Awyr Dywyll Ryngwladol.

## **11. Y pŵer i wneud y penderfyniad**

Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol (2004).